# BETYS

## 1 HAU DY HADAU


Gelli di hau betys o fis Mawrth tan fis Gorffennaf, yn syth i wely llysiau mewn rhigolau. Gwna'r rhigolau 2cm o ddyfnder, gyda 30cm rhwng pob rhes. Dyfria'r rhigol a thaenu'r hadau'n denau ar ei hyd. Rho ychydig bach o bridd dros y rhigol.

## 2 TENEUO

Pan fydd y planhigion bach yn 5-10cm o daldra, bydd angen lle arnyn nhw i dyfu. Tynna'r rhai llai a gwannach yn ofalus. Gadawa 10cm rhwng pob planhigyn.

## 3 CYNAEAFU

O fis Gorffennaf tan fis Medi, gelli di godi'r betys sydd yr un maint â phêl golff. Gelli di adael rhai i aeddfedu a'u codi pan fyddan nhw'r un maint â phêl criced.




### COFIA

Paid â gadael i'r planhigion bach a godaist ti wrth deneuo fynd i wast. Gelli di eu bwyta nhw mewn salad ac maen nhw'n cael eu galw yn 'microgreens'.



Newydd egino



Planhigion ifanc



Barod i'w codi

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES